



GWESTY ANTUR ZIP WORLD

TAFLEN WYBODAETH

Mae Zip World ar hyn o bryd yn ymgynghori gyda'r cyhoedd ar gynlluniau i ddatblygu gwesty newydd yn Llanrwst. Mae'r atebion i'r cwestiynau canlynol yn rhoi mwy o wybodaeth am Westy Antur Zip World a fydd yn eich helpu i roi sylwadau ar y cynlluniau arfaethedig. Os oes gennych unrhyw gwestiwn arall gallwch ebostio carly@zipworld.co.uk

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer Gwesty Antur Zip World?

Bydd y cais cynllunio ar gyfer gwesty antur pum llawr gydag ystafelloedd gwely ar 3 llawr a chyfleusterau atodol yn cynnwys bwyty, sawna a phwll nofio gwydr. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys elfennau antur megis llithren o'r llawr uchaf i'r llawr isaf, ogofau tanddaearol, wal ddringo allanol, podiau gweithgaredd a phrofiad rhithwir.

Yn lle yn Llanrwst fydd y gwesty'n cael ei leoli?

Bydd Gwesty Antur Zip World yn cael ei leoli ar dir ar Barc Tŷ Gwyn ar gyrion y dref. Mae arwynebedd y safle yn 4630 medr sgwâr ac mae'n hygyrch o'r A470.

A fydd y datblygiad o fudd i'r economi lleol?

Bydd y datblygiad yn golygu buddsoddiad sylweddol yn yr economi lleol a fydd, yn y tymor byr i ganolig, yn dod â manteision i'r gadwyn gyflenwi adeiladu ac yn y tymor hwy yn creu swyddi gwerthfawr ar ôl iddo agor. Mae Zip World o'r farn y bydd y datblygiad, unwaith y bydd yn weithredol, yn ategu'r ddarpariaeth dwristiaeth sydd ar gael yn yr ardal yn barod ac yn helpu i sicrhau bod gwariant gan ymwelwyr yn aros yn lleol.

Mae tystiolaeth yn dangos fod llawer o bobl sydd ar eu gwyliau sy'n ymweld â safleoedd Zip World yn aros y tu allan i ogledd Cymru, sy'n golygu bod economi'r rhanbarth yn colli allan ar wariant gan ymwelwyr o ran llety. Mae rhai ymwelwyr sy'n dod i safleoedd Zip World yn aros mewn llety mor bell i ffwrdd â Chaer, Lerpwl, Manceinion ac Amwythig.

Trwy ddarparu llety ychwanegol yn Llanrwst, sy'n ganolog i'n hanturiaethau ni a nifer o atyniadau lleol eraill, gellir annog pobl i ymestyn eu arhosiad. Bydd hyn yn cynyddu gwariant twristiaid yn yr ardal ac yn elwa busnesau eraill megis siopau, bwytai, tafarndai ac amwynderau eraill yn ogystal â chwmnïau twristiaeth eraill. Y nod yw sicrhau bod y gwesty yn cydblethu â busnesau lleol eraill ynghyd â chyfleusterau yn Llanrwst a Betws y Coed megis siopau, tafarndai, bwytai a chaffis.

Fel un o'r prif ddarparwyr twristiaeth antur yng ngogledd Cymru, bydd Gwesty Antur Zip World yn hyrwyddo atyniadau a chyfleusterau lleol eraill i dwristiaid. Yn y podiau rhithwir, bydd modd i bobl sy'n aros yn y gwesty gael profi'r hyn sydd gan ogledd Cymru i'w gynnig o ran twristiaeth antur. Bydd modd iddyn nhw hefyd fwcio eu hanturiaethau yn y fan a'r lle.

Y Fforest Coaster a agorwyd gan Zip World ar safle Fforest, ger Betws y Coed yn ddiweddar yw'r unig gostiwr Alpaidd o'i fath yn y DU. Dyma'r atyniad twristiaid diweddaraf yng ngogledd Cymru ac mae wedi'i leoli'n agos i Lanrwst. Disgwylir felly y bydd y galw presennol am lety'n lleol yn parhau i gynyddu.

Faint o swyddi a grëir gan y datblygiad?

Amcangyfrifir y bydd angen o leiaf 32 o bobl i weithio yn y gwesty ar unrhyw adeg, gan greu mwy na 80 o swyddi, trwy gyflogaeth uniongyrchol a'r defnydd o wasanaethau gan ddarparwyr lleol. Bydd y cyfnod adeiladu hefyd yn cefnogi nifer o swyddi yn y sector adeiladu gyda swyddi eraill yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol trwy'r gadwyn gyflenwi leol. Mae Zip World yn gyflogwr sylweddol yng ngogledd Cymru, yn arbennig yn Llanrwst a'r cyffiniau, ac mae ar hyn o bryd yn cyflogi mwy na 300 o bobl.

A fydd y rhain yn swyddi i bobl lleol?

Bydd. Lle bynnag y bo modd, bydd Zip World yn cyflogi pobl o'r ardal leol a'r rhanbarth yn ehangach. Byddwn yn gweithio'n agos gyda ddarparwyr addysg bellach ac uwch yn lleol i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant, datblygu a recriwtio fel y bo'n briodol.

Mae nifer sylweddol o staff presennol Zip World yn lleol, ac ymhell dros eu hanner yn siaradwyr Cymraeg. Mae cefnogi'r gymuned leol trwy ddarparu swyddi i bobl lleol yn rhan ganolog o ethos Zip World.



A fydd y datblygiad yn cael effaith ar yr amgylchedd?

Ers cychwyn y broses, mae Zip World wedi bod mewn trafodaethau gyda swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i sicrhau bod y cynllun yn cydweddu â'r amgylchedd ar y naill law, tra'n gyfoes ei ddelwedd ar y llaw arall. Mae'r dewis o ddeunyddiau - megis llechi, pren a sinc - yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd â'r ardal leol.

Mae'r gwesty wedi cael ei gynllunio i gyrraedd safon 'Ardderchog' BREEAM (y prif ddull asesu rhyngwladol ar gyfer cynaliadwyedd adeiladau). Mae cynaliadwyedd amgylcheddol felly wedi bod yn elfen graidd o'r cychwyn wrth gynllunio'r gwesty.

Mae'r dogfennu sy'n cyd-fynd â'r cais cynllunio yn cynnwys Asesiad Effaith Weledol a Thirlun sy'n ystyried effaith weledol y gwesty o'r ardal leol, yn cynnwys manau o fewn Parc Cenedlaethol Eryri a lleoliadau hanesyddol cyfagos.

Mae yna hefyd strategaeth tirlunio ar gyfer y safle sy'n cyflwyno dulliau tirlunio priodol i gyd-fynd ag elfen antur y cynigion, yn ogystal â phlannu coed ar hyd y ffin gyda'r A470.

Beth am yr iaith Gymraeg?

Mae cefnogi'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i Zip World a rhan annatod o hyn yw sicrhau bod digon o gyfleoedd gwaith o ansawdd i bobl leol, y mae cyfran helaeth ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Disgwylir y bydd y mwyafrif o'r staff yn lleol ac yn gallu siarad Cymraeg.

Mae cyd-berthynas rhwng twf economaidd a hyfywra'r iaith a'r diwylliant Cymreig yn y dyfodol; felly, disgwylir i'r cyfleoedd gwaith a grëir yn ogystal â'r hwb i swyddi yn y sector adeiladu yn y tymor byd, gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn lleol.

Mae llawer o drafod ynghylch ymgorffori'r Gymraeg yn enw'r gwesty. Bydd yr holl arwyddion ar y safle yn ddwyieithiog.

Pryd fydd yr adeiladu'n cychwyn, ac am ba hyd?

Yn unol â derbyn caniatâd cynllunio, mae Zip World yn bwriadu cychwyn adeiladu yn hanner cyntaf 2018. Y bwriad yw agor ar gyfer cyfnod ymwelwyr 2019.

A fydd y datblygiad yn arwain at gynnydd sylweddol mewn traffig?

Mae asesiad gan ymgynghorwyr annibynnol yn rhagweld y bydd y gwesty yn creu tua 30 o deithiau dwy ffordd yn ystod cyfnod prysuraf y bore a 24 o deithiau dwy ffordd yng nghyfnod prysuraf y prynhawn. Mae'r cais cynllunio yn cynnwys Asesiad Trafnidiaeth.

Beth am barcio?

Bydd 88 o fannau parcio ceir yn cynnwys parcio i'r anabl a staff yn cael eu cynnwys ar y safle, ynghyd â 25 o fannau parcio beic diogel. Mae'r safle mewn lleoliad hygyrch ar gyrion Llanrwst ac o fewn pellter cerdded derbynol o Lanrwst. Mae llwybr beiciau a cherdded newydd yn galluogi mynediad diogel i gerddwyr a beicwyr i ganol y dref. Mae safle bysiau wedi'i leoli yn agos iawn at y safle gyda bysiau'n pasio'n rheolaidd.

Lle gallaf gael mwy o wybodaeth am y datblygiad?
Bydd tîm Zip World yng Ngwesty'r Eagles, Llanrwst rhwng 11am-2pm ddydd Sadwrn 17eg Mehefin - gallwch alw i mewn i gael mwy o wybodaeth a gofyn unrhyw gwestiynau a fo gennych.

Gallwch lawrlwytho'r holl ddogfennau sy'n rhan o'r cais cynllunio sy'n gynwysedig yn yr ymgynghoriad hwn o www.cadnantplanning.co.uk/ymgyngoriadau

Bydd copi o holl ddogfennau'r cais cynllunio hefyd ar gael yn Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst, LL26 0DF.

Sut mae rhoi sylwadau ac adborth ar y cynigion?

Gallwch lenwi ffurflen sylwadau a'i chyflwyno ar lein ar ein gwefan www.zipworld.co.uk/hotel, neu lawrlwytho copi a'i hanfon trwy ebost at carly@zipworld.co.uk. Neu gallwch gael copi caled o'r ffurflen yn ystod ein digwyddiad ymgynghori yng Ngwesty'r Eagles, rhwng 11am-2pm ddydd Sadwrn 17eg Mehefin a'i dychwelyd atom trwy'r post: Ymgynghoriad Gwesty Antur, Zip World Base Camp, Dolanog, Llanrwst LL26 0BW.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn adborth yw 5pm, ddydd Llun 10 Gorffennaf 2017.

Beth yw'r camau nesaf?

Bydd Zip World yn ymgynghori gyda'r gymuned leol a nifer o gyrff statudol rhwng 12 Mehefin-10 Gorffennaf 2017. Ar ôl i'r derbyn yr holl adborth bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.